Brifysgol a bydd yn cael ei drosglwyddo i'r Brifysgol ar ddiwedd cyfnod y contract.

ii. Rhoddwyd eglurhad ar derminoleg a'r defnydd o 'ddiffyg cydymffurfio', sy'n awgrymu gofynion cyfreithiol, a nodwyd y bydd y Contract newydd yn cyflwyno safon perfformiad uwch nag a weithredir ar hyn o bryd ac y bydd yn bodloni gwahanol ofynion cyfreithiol. Cadarnhawyd y bydd y safonau perfformiad newydd yn bodloni gofynion deddfwriaethol a chanllawiau diwydiannol eraill, megis Safonau Prydeinig.

iii. Cadarnhawyd y bydd cyfrifoldebau'r Rheolwr Diogelwch a Chydymffurfiaeth yn cael eu cynnwys yn swyddogaeth y Rheolwr Cyflawni Contractau newydd. Mae hyn mewn perthynas â'r Contractwr FM a gweithgareddau mewnol PACS.

iv. Mae trafodaethau ar y gweill i sicrhau y bydd gofynion cael Desg Gymo

ychwanegol.

xvi. Defnyddio asesiadau a rheolaethau risg iechyd a diogelwch i hyrwyddo cynhwysedd a chefnogi addasiadau rhesymol sydd, lle mae hynny'n ymarferol resymol, yn galluogi rhai ag anghenion

viii. *Contractwr Rheoli Cyfleusterau Caled (FM):* Mynegwyd pryderon ynghylch penodi'r Contractwr FM newydd a phwysigrwydd sicrhau y cyflwynir y wybodaeth gywir â risgiau, rheolaethau a safonau. Cydnabuwyd bod cefnogaeth staff PACS a'u gwybodaeth leol wedi bod yn allweddol. Gofynnir am sicrwydd ynghylch sut y caiff gwybodaeth am beryglon allweddol ei hymgorffori a'i rheoli yn y trefniadau newydd.

**554(b) Adroddiad yr Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol**

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 17 Ionawr 2019. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

i. *Ymweliad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE):* Archwiliodd y Swyddog Cydymffurfiaeth Rheoleiddiol a'r Arolygydd HSE Arbenigol fannau GMO ar 28 Mawrth 2018 a dim ond mân faterion a godwyd. Mae'r Ystafell Tyfu Planhigion bellach wedi symud i gyfleuster newydd yn Thoday. Mae pob Asesiad Risg GMO wedi'i ddiweddaru yn ôl yr angen.

ii. *Adolygiad Bioberyglon:* Cynhaliwyd dau adolygiad o Gyfleusterau GMO / Dosbarth 2 yn 2018. Nodwyd y daeth i'r amlwg ym mis Rhagfyr nad oedd y safonau mewn rhai mannau mor uchel â'r rhai a gafwyd yn flaenorol. Roedd yr mannau dan sylw'n dal i gyrraedd y safonau sylfaenol ar gyfer cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ond roeddent yn syrthio'n brin o safonau mewnol. Roedd y rhan fwyaf o faterion yn ymwneud â diffygion cymhennu a methu â chadw cofnodion llawn am ddiheintio. Bwriedir cynnal adolygiad pellach yn Chwefror 2019 i edych a yw camau gweithredu wedi cael eu cyflawni.

iii. *Goruchwylio Iechyd:* Darparwyd dogfen yn ymwneud â threfniadau cyfredol y Brifysgol ar oruchwylio iechyd, a sefydlwyd yn unol â gofynion deddfwriaethol neu'n seiliedig ar broses asesu risg. Mae'r rhan fwyaf o'r goruchwylio'n ymwneud â ffactorau resbiradol neu ddirgryniad dwylo/breichiau. Nodwyd y bydd y galw am oruchwylio'n cynyddu oherwydd y cynnydd mewn gwaith yn ymwneud ag anifeiliaid.

iv. *Nadroedd:* Mae cynlluniau i gynyddu'r amrywiaeth o nadroedd gwenwynig a gedwir ac i ddechrau rhaglen fridio. Ni fydd unrhyw gynnydd sylweddol yn niferoedd y nadroedd a gedwir.

v. *Gwasanaethau Eiddo a Champws (PACS):* Mynegwyd pryder â phenodi'r Contractwr FM newydd a'r posibilrwydd o golli adegau profi

hynny:

i. *Adolygiadau Polisi:* Yn unol â'r Rhestr Polisïau a Adolygwyd, trafodwyd a chytunwyd ar nifer o Safonau Polisi diwygiedig (Asesiad Risg, Diogelwch Offer Trydanol, Gweithio y Tu Allan i Oriau Arferol a Mamau Newydd a Merched Beichiog). Mae'r diwygiadau'n cynnwys mân newidiadau a newidiadau technegol a therminoleg. Yn ogystal, cytunwyd ar newidiadau i'r Polisi Awyrennau Bach Di-griw (Dronau) a ddiwygiwyd yng ngoleuni newidiadau gan yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) ac a fydd yn awr yn caniatáu i 'Beilotiaid' dronau na chymeradwywyd gan